**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

25 Chwefror 2020


Annwyl Weinidog

Ar 12 Chwefror, yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gofynnodd yr Aelodau imi ysgrifennu atoch i gael mwy o fanylion am y Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansiau. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar am fanylion aelodaeth lawn y Tasglu, ynghyd â'r llinell amser ar gyfer ei waith.

Ymhellach, mewn ymateb i'r dirywiad ym mherfformiad trosglwyddo cleifion ambiwlans dros y misoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod wedi gofyn i swyddogion ddatblygu cynigion ar gyfer system o gymhellion i gyflawni'r gwelliannau a ddymunir. Yn eich datganiad ym mis Ionawr, nodwyd y disgwylir ichi benderfynu o fewn yr ychydig wythnosau nesaf fel y gellir cyflwyno'r system newydd mewn pryd i effeithio ar berfformiad y gaeaf hwn. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth y gallwch ei darparu am y cymhellion sy'n cael eu hystyried a'r llinell amser a gynlluniwyd ar gyfer eu cyflwyno. Roedd y Pwyllgor hefyd yn gofyn a roddwyd, fel rhan o hyn, unrhyw ystyriaeth i symud cyfrifoldeb am drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, a'r gwaith o fonitro'r trosglwyddiadau hynny, o'r Ymddiriedolaeth i fyrddau iechyd unigol.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565